

Roedd yn graf cael croesawu cynifer o blant yr Ysgol Sul a phlant dieithr atom wrth i ni baratoi ar gyfer y Nadolig. Roedd yn gyfle hefyd i wahodd teuluoedd i ymuno â ni yng Ngwasanaeth Nadolig y plant a gynhelir fore Sul, Rhagfyr 23.

Diolch i Susan am drefnu'r cyfan, a diolch i bawb a fu'n helpu mewn unrhyw ffordd.

CIC

Nos Wener, Rhagfyr 14, byddwn yn mynd i Ganolfan Glasfryn, Y Ffôr, i'r Bowllo 10. Mae angen dychwelyd y ffurflenni mor fuan â phosibl, erbyn heno os yn bosibl.

Cyfraniadau 2018 Capel Coch

Bydd llyfrau ariannol Capel Coch am 2018 yn cau ddydd Sul, Rhagfyr 30. Bydd unrhyw gyfraniad a dderbynnir wedi'r diwrnod hwnnw yn cael ei roi yng nghyfrifon 2019. Diolch yn fawr iawn am eich cydweithrediad.

Cyngerdd Nadolig

Bydd Cyngerdd Nadolig Côr Capel Coch a Chyfeillion yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis am 7.00 o'r gloch, nos Sul, Rhagfyr 23. Mae tocynnau ar werth am £5 yn Siop Crib Goch, Llanberis (neu

Y mis nesaf - Deiniolen

Oedfaon yn Nhŷ Elidir

Rhagfyr 16

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Rhagfyr 23

5.00 p.m. - Oedfa Nadolig yng ngofal yr ieuenctid

Rhagfyr 30

Dim Oedfa

gellir talu wrth y drws ar y noson). Bydd yr elw at waith Cynllun Efe.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Rhagfyr 16: Gwasanaethir am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Wener, Rhagfyr 14: Trip Nadolig CIC i Glasfryn, Y Ffôr.

Dydd Sul, Rhagfyr 16: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

CARMEL

Dydd Llun, Rhagfyr 10: Te Bach am 2.30 o'r gloch.

Nos Wener, Rhagfyr 14: Dwylo Prysus am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Rhagfyr 16: Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaeth Nadolig am 4.00 o'r gloch.

BETHLEHEM

Dydd Iau, Rhagfyr 13: Bwrlwm am 2.15 o'r gloch.

Dydd Sul, Rhagfyr 16: Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul am 2.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Rhagfyr 16: Ni fydd oedfa.

Y mis nesaf - Llanberis

Rhagfyr 16

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

Rhagfyr 23

10.30 a.m. - Oedfa Nadolig y Plant

7.00 p.m. - Cyngerdd Nadolig

Côr Capel Coch a Chyfeillion

Rhagfyr 30

10.00 a.m. - Mr John Roberts

Gofalaeth Fro'r
Llechen Las

Rhif 778
09 Rhagfyr, 2018
Gronyn

Edifeirwch

Nid yw'n syndod o gwbl fod yr Eglwys Gristnogol yn Nhymor yr Adfent wedi rhoi sylw i Ioan Fedyddiwr. Os mai'r tymor sy'n dathlu dyfodiad y Meseia yw hwn, mae'n naturiol fod sylw'n cael ei roi i'r dyn hwn a anfonwyd i gyhoeddi ei ddyfodiad. Ioan oedd yr un a anfonwyd gan Dduw i baratoi'r ffordd ar gyfer dyfodiad Iesu.

Neges fawr Ioan Fedyddiwr i'r bobl a ddeuai i wrando arno yn yr anialwch oedd bod angen iddynt edifarhau am fod 'teyrnas nefoedd wedi dod yn agos' (Mathew 3:2). Cyfeirio yr oedd Ioan at y ffaith fod Iesu ar ddod. Ym mherson Iesu Grist roedd holl ofynion teyrnas Dduw ar bobl yn cael eu hamlygu, a'r holl fendithion oedd gan Dduw ar eu cyfer yn cael eu cynnig. Ond er mwyn medru ufuddhau i orchmynion Duw ac er mwyn derbyn ei fendithion roedd angen i bobl edifarhau. Ystyr hynny oedd troi oddi wrth ddrygioni ac ymroi i fyw mewn ffordd newydd. Troi o amgylch yn llwyr a newid cyfeiriad yw edifeirwch, a galwai Ioan ar bobl i wneud hynny er iddynt fod yn barod ar gyfer dyfodiad Iesu.

Wrth edrych ymlaen bob blwyddyn at dathlu dyfodiad Iesu, Fab Duw, i'r byd mae'r Eglwys hefyd, yn Nhymor yr Adfent, yn pwysleisio'r ffaith fod rhaid wrth edifeirwch er mwyn medru croesawu Iesu'n iawn. Ond mor hawdd yw colli golwg ar hynny. Diolchwn am bob sylw a roddir i'r baban a aned ym Methlehem, yn arbennig y dyddiau hyn a ninnau'n gwybod y bydd llawer yn

dathlu'r Nadolig heb fod ganddynt y syniad lleiaf am wir ystyr yr Ŵyl Gristnogol bwysig hon. Yng Nghymru, mewn oes sy'n prysur droi cefn ar y Ffydd, diolchwn am bob cyfeiriad a fydd at Iesu yn ystod yr Adfent eleni.

Ond mae'n rhaid cofio hefyd fod modd gwneud Iesu'n llai nag ydyw. Mae'n rhwydd iawn i hynny ddigwydd adeg y Nadolig os mai aros yn fabi bach yn ein golwg ni a wna baban Bethlehem. Os mai'r cwbl a welwn y Nadolig hwn fydd babi bach, fyddwn ni ddim yn debygol o blygu mewn edifeirwch. Mi fedrwn ddotio a rhyfeddu a llawenhau wrth weld y babi mewn preseb. Oni wnawn ni hynny wrth grud pob babi bach newydd? Gweld fod y babi hwn yn wahanol i bob babi arall; gweld mai'r babi hwn ydi Mab Duw ei hun a wna i ni blygu mewn edifeirwch wrth i ni feddwl amdano a dynesu ato.

Yng nghanol ein holl baratodau ar gyfer y Nadolig, dowch i ni gofio pwy yw'r babi y dathlwn ei eni, a pham yn union y cafodd ei eni. Hwn ydi'r unig un y gellir dweud amdano ei fod wedi cael ei eni er mwyn iddo farw. Cafodd ei anfon i'r byd er mwyn dioddef a marw trosom ar Galfaria. O ddeall hynny, mi feddylw'n am y Geni mewn ffordd newydd; ac un wedd ar y ffordd honno yw edifeirwch. O gofio fod Iesu wedi dod i ddiodeff yn ein lle ar y groes, dowch i droi ato o'r newydd mewn parch a chariad. Bydd hynny'n golygu hefyd droi oddi wrth bopeth sy'n groes i'w eiriau a'i esiampl.

Adfent 2

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 3.30 o'r gloch gan y Parchg Gwynfor Williams.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Coetmor Williams.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch. Bydd yr oedfa am 2.00 o'r gloch yng ngofal yr aelodau.

Nid oes oedfa yn Rehoboth.

Cofion

Anfonwn ein cofion cynhesaf at ein holl aelodau sydd heb fod yn dda ar hyn o bryd, mewn ysbyty, cartref preswyl neu ar eu haelwydydd eu hunain. Mae'n ail Sul yr Adfent, a'r Nadolig erbyn hyn yn sicr yn dod yn nes. Gweddiwn dros bawb sy'n gweld y Nadolig yn gyfnod

Balm o Salm



'O Dduw fy moliant, paid â thewi. Oherwydd agor-**BYW Y BEIBL** asant eu genau drygionus a thwyllodrus yn fy erbyn, a llefaru wrthyf â thafod celwyddog, a'm hamgylchu â geiriau casineb, ac ymosod arnaf heb achos. Am fy ngharedigrwydd y'm cyhuddant, a minnau'n gweddio drostynt. Talasant imi ddrwg am dda, a chasineb am gariad ... Ond tydi, fy ARGLWYDD Dduw, gweithreda drosof er mwyn dy enw; oherwydd daioni dy gariad, gwareda fi. Yr wyf yn druan a thlawd, a'm calon mewn gwewyr ynof ... Clodforaf fi yr ARGLWYDD â'm genau, a mol-iannaf ef yng ngŵydd cynulleidfa. Oherwydd saif ef ar ddeheulaw'r tlawd, i'w achub rhag ei gyhudd-wyr' (Salm 109:1-5, 21-22, 30-31).

anodd, unig a llawn hiraeth.

'Dad Nefol; yn dy dosturi clyw ein gweddiau dros bawb y gwyddom ni am eu gofidiau a'u poen ar drothwy Gŵyl y Nadolig eleni eto. Helpa hwy a ninnau i weld o'r newydd oleuni yr Efengyl a'i neges syfrdanol am eni'r un a aned yn Dduw gyda ni yn y byd.'

Rehoboth a Capel Coch

Y Sul diwethaf, dan arolygaeth cynrychiolwyr Henaduriaeth Arfon, bu aelodau Rehoboth a Chapel Coch yn pleidleisio'n derfynol o blaid uno'r ddwy eglwys yn Capel Coch. Roedd pleidleisiau'r ddwy eglwys yn cael eu cyfrif gyda'i gilydd y tro hwn, ac mae'n braf iawn cael dweud y cafwyd pleidlais unfrydol o blaid yr uno. Bydd y ddwy eglwys yn uno ddechrau Ionawr 2019.

Gan mai ar Sul cyntaf pob mis yn unig yr oedd yr oedfaon yn Nant Peris, oedfa'r Sul diwethaf oedd yr oedfa olaf yno. Ac felly, mae'r cyfrifoldeb am gapel a festri

Rehoboth wedi ei drosglwyddo erbyn hyn i Henaduriaeth Arfon, ac yr ydym yn ddiolchgar i'r Henaduriaeth am hynny.

Edrychwn ymlaen at gael cwmni aelodau Rehoboth yn Capel Coch yn fuan felly. Diolch yn fawr i swyddogion Rehoboth, Elwyn Searell Jones yr Ysgrifennydd, ac Elfyn Williams, y trysorydd am eu gwaith dros y blynyddoedd diwethaf. Diolch hefyd am ffyddlondeb y criwbach a fu'n dod ynghyd yn fisol; a diolch arbennig i deulu Dwyfor am y croeso a gawsom i'r aelwyd i gynnal ein hoedfaon y blynyddoedd diwethaf hyn.

Bedydd

Yn ystod yr oedfa yng nghapel Carmel nos Sul diwethaf, Rhagfyr 2, bedyddiwyd Efa Gwen a Nel Beca, merched Awen Owen a Non Hughes. Estynwyd croeso i'w teuluoedd i'r oedfa. Dymunwn bob bendith iddynt fel teulu, ac edrychwn ymlaen fel eglwys at gael gwneud ein rhan o gyflwyno Iesu Grist a'r Ffydd i'r genod wrth iddynt dyfu.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu'r Parchg Euros Wyn Jones, Llangefni a fu farw'n gwbl annisgwyl ddydd Iau, Tachwedd 29, yn 67 mlwydd oed. Byddai wedi dathlu ei ben blwydd yn 68 oed drannoeth.

Cafodd Euros ei ordeinio'n weinidog yn Henllan Amgoed, Sir Benfro yn 1977. Dychwelodd i'r Gogledd yn 1983, yn weinidog i eglwys yn Sir Fôn. Ers 1992 bu'n hyfforddi gweinidogion, darpar weinidogion, ac aelodau ac arweinwyr yr eglwys trwy Goleg yr Annibynwyr ac Undeb yr Annibynwyr. Yn ogystal â'r gwaith hwnnw, teithiodd yn helaeth o amgylch Cymru, a thu hwnt, i bregethu'r Efengyl. Yr oedd yn ymwelydd cyson ag eglwysy'r Ofalaeth hon, ac yr oedd ei weinidogaeth a'i bregethu'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr yn ein plith. Gwelwn ei golli'n fawr iawn.

Bydd colled enfawr ar ei ôl ym mhob cwr o'r wlad, nid yn unig am ei fod yn wyneb cyfarwydd i gynulleidfa oedd ym mhob rhan o Gymru ond hefyd am ei fod wedi hyfforddi y rhan fwyaf o'r gweinidogion Cymraeg a alwyd i'r weinidogaeth dros y pum mlynedd ar hugain diwethaf. Yr oedd ei gyfraniad a'i ddyllanwad yn fawr.

Roedd Euros a minnau yng Ngholeg Bala Bangor gyda'n gilydd. Ond wrth gwrs, mae'r cyswllt rhyngom yn fwy o lawer na hynny oherwydd priodas Gwenno a Dafydd. Cydymdeimlwn â Gwenno a'i brodyr a'i chwirydd, Huw, Mari, Lowri a Dewi; a'r wyrion Llew ac Arfon a'r holl deulu.

Cynhelir gwasanaeth angladd Euros yng nghapel Moreia Llangefni am 3.00 o'r gloch ddydd Iau, Rhagfyr 13.

Cydymdeimlad

Estynnwn gydymdeimlad i Mrs Ceinwen Williams, Bod Owen, Llanberis a'r teulu yn y brofedigaeth o golli ei chwaer, Mrs Eirlys Lee, a fu farw yn Lancaster ddydd Mercher, Tachwedd 28, yn 81 mlwydd oed. Hyd yn ddiweddar, roedd Eirlys yn byw yn Llanberis; ond dychwelodd at ei phlant rai misoedd yn ôl. Cynhelir yr angladd yn yr Amlosgfa ym Mangor am 10.00 o'r gloch, ddydd Llun, Rhagfyr 17.

Crefft a Stori

Fore ddoe, Rhagfyr 8, cafwyd bore o Grefft a Stori yn Capel Coch. Trefnwyd y cyfan gan Susan Williams ar ran Capel Coch a Chynllun Efe. Roedd yn wych gweld y festri yn llawn prysurdeb am ddwy awr, a'r plant a'r rhieni yn amlwg yn mwynhau gwneud pob math o waith crefft oedd wedi ei osod ar eu cyfer ar y byrddau o amgylch y lle. Ar y diwedd, adroddodd Susan Stori'r Geni. Gwnaeth hynny trwy gyfrwng lluniau a chân; a chafodd hyd yn oed help asyn!